**At:** Y Pwyllgor Busnes

**Gan:** Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

**Dyddiad:** Mis Hydref 2010

**Adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad: newidiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â busnes y pwyllgorau**

**Diben**

1. Gwahoddir Rheolwyr Busnes i ystyried y cynigion ar gyfer newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n gysylltiedig â busnes y pwyllgorau (Rheol Sefydlog 10, Rheolau Sefydlog 12 i 21 a Rheol Sefydlog 28 presennol).[1]

**Cefndir**

2. Trafododd y Pwyllgor y Rheolau Sefydlog diwygiedig sy'n gysylltiedig â busnes y pwyllgorau a phenderfynodd y dylent:

- ddarparu ar gyfer craffu ar waith Llywodraeth Cymru a materion eraill sy'n berthnasol i Gymru mewn ffordd ddigonol a phriodol;
- rhoi cyfle i bwyllgorau gychwyn a dylanwadu ar fusnes;
- rhoi cyfle i'r cyhoedd ymgysylltu â gwaith y Cynulliad; a
- bod mor hyblyg a dealladwy â phosibl.

3. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r Rheolau Sefydlog diwygiedig roi'r hyblygrwydd i unrhyw Gynulliad yn y dyfodol gynllunio ei strwythur ei hun ar gyfer pwyllgorau er mwyn cyflawni ei swyddogaethau yn hytrach na rhestru cyfres o bwyllgorau unigol. Cytunodd Rheolwyr Busnes y dylai'r adolygiad o Reol Sefydlog 10 (gweithdrefnau'r pwyllgorau) hefyd arwain at hyblygrwydd o ran y ffyrdd y gall pwyllgorau ymgymryd â'u dyletswyddau.

4. Ar ôl i'r Pwyllgor Busnes gytuno arnynt, gofynnodd Pennaeth Gwasanaeth u Pwyllgorau i gadeiryddion pwyllgorau nad ydynt yn bwyllgorau deddfwriaeth nodi eu barn ynghylch y cwestiynau a ganlyn:

- A ydych yn teimlo bod y Rheolau Sefydlog wedi cyfyngu ar weithgareddau'ch pwyllgor mewn unrhyw ffordd?

[1] Cafodd Rheol Sefydlog 11 – Y Pwyllgor Busnes – ei hystyried fel rhan o'r trafodaethau ynghylch trefn busnes.

- A yw'r swyddogaethau / cyfrifoldebau a ddyrannwyd i'r pwyllgor wedi bod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i Aelodau yr hyn yr oedd angen ei wneud yn eu barn hwy?

- A oes swyddogaethau ychwanegol yr hoffech ymgymryd â hwy fel pwyllgor? Er enghraifft, craffu ar ddeiliaid swyddogaethau penodol yng Nghymru, fel comisiynwyr, ombwdsmyn, cyrff gwarchod neu gyrff y DU gyfan sydd â chyfrifoldebau sy'n effeithio ar Gymru.

- A ydych yn credu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar swyddogaethau/cyfrifoldebau penodol? Er enghraifft, craffu ar ôl deddfu, craffu ar Fesurau Seneddol / deddfwriaeth y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd.

5. Mae'r llythyr a anfonwyd at gadeiryddion a'r ymatebion a gafwyd i'w gweld yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-bc-home/bc-review_of_standing_order_consultation_responses.htm. Cafodd yr ymatebion hyn eu hystyried a'u hadlewyrchu yn y cynnig lle bo hynny'n briodol.

6. Cafodd yr ymatebion a ddaeth i law o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus eu hystyried hefyd a chyfeiriwyd atynt mewn cynigion lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, roedd llawer o'r sylwadau a gafwyd am bwyllgorau'n ymwneud â'u ffyrdd o weithio ac ni fydd angen newid y Rheolau Sefydlog i'w gweithredu. Byddwn yn tynnu sylw'r swyddogion perthnasol at awgrymiadau o'r fath. Mae copïau o'r ymatebion ar gael drwy glicio ar y linc a nodir ym mharagraff 5 uchod.

## Cynigion ar gyfer newid

7. Caiff y cynigion ar gyfer newidiadau i ganiatáu hyblygrwydd o ran strwythur y pwyllgorau eu hegluro yn Rhan I. Caiff y cynigion ar gyfer newidiadau i weithdrefnau'r pwyllgorau eu hegluro yn Rhan II. Nodir y newidiadau manwl a gynigir i'r Rheolau Sefydlog perthnasol yn Atodiad A i'r papur hwn. Yn Atodiad B, ceir 'fersiynau glân' o'r Rheolau Sefydlog perthnasol, sy'n cynnwys yr holl newidiadau arfaethedig. Lle bo'n briodol, mae'r papurau yn cyfeirio at yr ymatebion a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r ymgynghoriad ar gyfer cadeiryddion.

## Rhan I: Newidiadau arfaethedig i gyflwyno hyblygrwydd i strwythur y pwyllgorau

### *Y trefniadau presennol*

8. Yn y Trydydd Cynulliad, sefydlwyd pwyllgorau a dyrannwyd eu cylch gorchwyl a'u swyddogaethau drwy amrywiaeth o ddulliau:

a) nodir nifer o bwyllgorau mewn Rheolau Sefydlog ar wahân sy'n diffinio'u cylch gorchwyl a'r hyn sy'n ofynnol ganddynt (ee y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog a'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol);

b) mae gan rai pwyllgorau Reol Sefydlog ar wahân ac maent yn cyflawni swyddogaethau / cyfrifoldebau a nodir mewn Rheolau Sefydlog eraill (ee y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol);

c) nid yw'r rhan fwyaf o bwyllgorau wedi'u rhestri yn y Rheolau Sefydlog ond fe'u sefydlwyd o dan Reolau Sefydlog 12 a 21 i gyflawni swyddogaethau penodol a nodir hwy - i raddau gwahanol - yn y Rheolau Sefydlog (ee y Pwyllgor Deisebau, y pwyllgorau deddfwriaeth a'r pwyllgorau craffu); a

d) sefydlwyd rhai pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 21, drwy gytundeb y Cynulliad, i gyflawni rôl na chaiff ei nodi fel gofyniad yn y Rheolau Sefydlog (ee y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a Phwyllgor y Cynulliad Cyfan).

### *Y prif newidiadau a gynigir*

*(i) Sefydlu pwyllgorau*

9. Cynigir sefydlu un dull penodol ar gyfer sefydlu pwyllgorau yn hytrach na'r amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd. Byddai'r dull hwnnw yn caniatáu i'r Pwyllgor Busnes, yn amodol ar gytundeb y Cynulliad, gynnig y strwythur mwyaf addas i'r Cynulliad mewn unrhyw sefyllfa benodol. Er y bydd y cynnig hwn yn rhoi'r rhyddid i'r Cynulliad ddewis strwythur ei bwyllgorau, byddai'r cynnig hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y prif swyddogaethau a restrir yn y Rheolau Sefydlog yn cael eu cyflawni. Byddai swyddogaethau o'r fath yn cynnwys craffu ar y gyllideb, safonau ymddygiad, deisebau cyhoeddus, deddfwriaeth ac archwilio cyfrifon cyhoeddus.

10. Byddai'r cynnig hwn yn caniatáu i'r Pwyllgor Busnes ymateb i:

a) pryderon a godwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch strwythur y system bwyllgorau a'r hyn y gallant ei gyflawni

Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd yn dadlau bod cyfyngiadau o ran yr hyn y gellid ei gyflawni oherwydd y nifer isel o Aelodau Cynulliad.[2] Felly, awgrymwyd bod lle i symleiddio'r pwyllgorau nad ydynt yn rhai statudol drwy esbonio eu bodolaeth mewn ffordd fwy clir;[3] neu, fel arall, sefydlu pwyllgorau pwnc a fydd yn ymgymryd â'r gwaith o graffu ar ddeddfwriaeth a pholisi.[4]

b) mewnbwn Cadeiryddion y Pwyllgorau i'r adolygiad o Reolau Sefydlog

Nododd rhai cadeiryddion eu bod yn croesawu bwriad y Pwyllgor Busnes o gynnwys hyblygrwydd yn y Rheolau Sefydlog.[5] Er nad oedd y rhan fwyaf o'r Cadeiryddion yn teimlo bod y Rheolau Sefydlog presennol yn rhy gaeth, nodwyd y gallai fod angen adolygu rôl y pwyllgorau a'r ffordd y maent yn gweithredu ar gyfer y Cynulliad nesaf er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod pwyllgorau presennol yn craffu ar yr un materion.[6] Dadleuwyd hefyd y dylid mynd i'r afael â hierarchaeth canfyddedig y pwyllgorau – gan fod rhai pwyllgorau yn cael eu henwi yn y Rheolau Sefydlog, tra nad yw rhai eraill yn cael eu henwi.[7]

11. Byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn caniatáu i'r Pwyllgor Busnes fynd i'r afael â'r awgrymiadau hyn drwy ddarparu'r hyblygrwydd i weithredu'r cynigion a gyflwynwyd gan y rhai a ymatebodd a chadeiryddion y pwyllgorau, pe bai'n dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, byddai unrhyw gynigion a wneir gan y Pwyllgor Busnes yn parhau i fod yn amodol ar gyflawni'r prif swyddogaethau a restrir yn y Rheolau Sefydlog a chytundeb y Cynulliad. Cynigir y byddai hyn yn gwarchod y gwaith o gyflawni cyfrifoldebau craidd y Cynulliad fel deddfwrfa.

12. Er mwyn rhoi'r cynnig hwn ar waith, gwahoddir Aelodau i gytuno bod Rheol Sefydlog 12 yn cael ei ddiwygio'n sylweddol a bod darpariaethau Rheol Sefydlog 21 hefyd yn cael eu cynnwys ynddo, Byddai Rheol Sefydlog 12 diwygiedig yn:

a) ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes gynnig strwythur y pwyllgorau a, thrwy wneud hynny, sicrhau y gallai gwariant, gweinyddiaeth, dyletswyddau statudol a pholisi'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, a'r holl faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, fod yn destun gwaith craffu

[2] SOR3 (Cymdeithas MS Cymru), SOR8 (Yr Athro Laura McAllister a Dr Diana Stirbu) a SOR10 (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
[3] SOR8 (Yr Athro Laura McAllister a Dr Diana Stirbu)
[4] SOR3 (Cymdeithas MS Cymru),
[5] SOR17 (Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant) a SOR15 (Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc)
[6] SOR23 (Y Pwyllgor Cynaliadwyedd)
[7] SOR15 (Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc)

pwyllgor ac y gall pwyllgorau hefyd ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru [Rheol Sefydlog 12.1(i) (ii) a (iv) diwygiedig]

b) dileu'r holl Reolau Sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i rai pwyllgorau unigol penodol gael eu sefydlu (hebalw am y Pwyllgor Busnes – sy'n ganolog i drefn busnes a'r broses o sefydlu pwyllgorau – a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y mae'n rhaid ei enwi yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006) ac yn eu lle nodi'r Rheolau Sefydlog sy'n rhestri'r swyddogaethau y mae'n rhaid eu cyflawni drwy strwythur y pwyllgorau. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i'r Pwyllgor Busnes ddyrannu'r holl swyddogaethau a restrir yn y Rheolau Sefydlog diwygidedig i bwyllgorau a sefydlwyd gan y Cynulliad [Rheol Sefydlog 12.1(iii) diwygiedig];

c) ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig neu gynigion sy'n cynnig teitlau a meysydd cyfrifoldeb pwyllgorau i gytuno arnynt drwy benderfyniad gan y Cynulliad [Rheol Sefydlog 12.2 diwygiedig]. Byddai unrhyw benderfyniad a wneir gan y Pwyllgor Busnes ynghylch cynigion ar gyfer teitlau a meysydd cyfrifoldeb y pwyllgorau yn destun pleidleisio cymhwysol, cymwysedig yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(iv), fel sy'n gymwys i benderfynu ar fusnes heblaw busnes y Llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn (byddai hyn yn golygu bod rhaid diwygio Rheol Sefydlog 11); a

d) caniatáu i'r Cynulliad sefydlu unrhyw bwyllgor arall o ganlyniad i gynnig a gaiff ei gyflwyno gan unrhyw Aelod (yn amodol ar y gofyniad bod y cynnig yn cynnwys teitl a chylch gorchwyl y pwyllgor) [Rheol Sefydlog 12.5 diwygiedig].

*(ii) Meysydd cyfrifoldeb a swyddogaethau pwyllgorau*

13. Er y bydd gan y Cynulliad nesaf fwy o hyblygrwydd o ran cynllunio'i system bwyllgorau, byddai'r newidiadau arfaethedig i'r Rheol Sefydlog hefyd yn sicrhau bod *rhaid* cyflawni swyddogaethau statudol neu weithdrefnol craidd. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu system sy'n cadw'r cydbwysedd rhwng dwyn y llywodraeth i gyfrif a chraffu ar ddeddfwriaeth, ynghyd ag ymgymryd â swyddogaethau craidd mewn perthynas â'r canlynol: archwilio cyfrifon cyhoeddus; gwaith craffu ariannol; craffu ar is-ddeddfwriaeth a materion cyfansoddiadol eraill; craffu ar safonau ymddygiad ac ystyried deisebau cyhoeddus. Gallai'r strwythur hwnnw fod yr un peth â'r system bwyllgorau bresennol neu gellir ei addasu yn y ffordd sy'n gweddu orau i'r Cynulliad mewn unrhyw amgylchiadau sy'n codi.

14. Cynigir gwneud diwygiadau penodol i swyddogaethau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Rheolau Sefydlog er mwyn caniatáu mwy o hyblgrwydd a chyfyngu llai ar yr hyn y gall y pwyllgorau ei wneud. Mae llawer o'r

awgrymiadau hyn yn deillio o'r ymatebion i'r ymgyghoriad cyhoeddus ac ymatebion cadeiryddion y pwyllgorau; fe'u nodir o dan y Rheol Sefydlog perthnasol yn Atodiad A ynghyd ag eglurhad manwl o'r newidiadau arfaethedig.

**Rhan II: Newidiadau arfaethedig i weithdrefnau'r pwyllgorau**

***Y prif newidiadau a gynigir***

15. Mae Rheol Sefydlog 10 presennol yn amlinellu gofynion ar gyfer gweithdrefnau'r pwyllgorau. Cynigir bod Rheol Sefydlog 10 yn aros fel y mae wedi'i ddraftio, i raddau helaeth, gyda rhai mân newidiadau. Cynigir newidiadau er mwyn:

a) Gwella eglurder y Rheolau Sefydlog mewn perthynas â'r pwyllgorau;

b) Adlewyrchu'r ffyrdd arferol o weithio yn y Trydydd Cynulliad; a

c) caniatáu ar gyfer hyblgrwydd neu wella.

16. Mae llawer o'r awgrymiadau ar gyfer diwygio yn deillio o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac ymatebion gan gadeiryddion y pwyllgorau. Fe'u nodir o dan y Rheol Sefydlog perthnasol yn Atodiad A, ynghyd ag eglurhad manwl o'r newidadau arfaethedig. Cynigir newidiadau yn y meysydd a ganlyn:

- Dileu'r cyfeiriad at arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn y Rheolau Sefydlog gan mai mater i'r grwpiau yw pennu sut y cânt eu trefnu'n fewnol. Fe fydd angen adlewyrchu'r newid hwn drwy'r Rheolau Sefydlog er mwyn sicrhau cysondeb [Rheol Sefydlog 10.8 a newid canlyniadol i Reol Sefydlog 16.4 ac unrhyw Reol Sefydlog arall sy'n cyfeirio at arweinwyr grwpiau gwleidyddol];

- cyflwyno eglurder o ran sut y gellir newid aelodaeth pwyllgor pan gaiff cynrychiolydd grŵp gwleidyddol ei newid, sy'n digwydd yn aml yn ystod Cynulliad [Rheol Sefydlog 10.12A];

- darparu eglurder o ran y gweithdrefnau sy'n nodi sut bydd is-bwyllgorau'n cyflwyno ardoddiadau [Rheol Sefydlog 10.16A];

- darparu eglurder o ran y gweithdrefnau ar gyfer ethol cadeiryddion pwyllgorau, gan adlewyrchu'r ffordd y bydd cadeiryddion yn cael eu hethol yn y Trydydd Cynulliad yn gyffredinol [Rheol Sefydlog 10.18 a Rheol Sefydlog 10.18A];

- egluro cwmpas y rheol *sub judice* (fel y cynigiwyd ar gyfer Rheolau Sefydlog y Cyfarfod Llawn) [Rheol Sefydlog 10.26];

- caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â thrafodion y pwyllgorau drwy newid y terfyn amser o 20 munud i gael cworwm a chaniatáu i'r cadeirydd nodi'r terfyn amser [Rheol Sefydlog 10.31];
- gwneud busnes y pwyllgorau yn fwy effeithlon drwy wneud darpariaeth i bwyllgorau bleidleisio 'drwy amneidio', heblaw bod Aelod yn gwrthwynebu hynny (os felly, cynhelir pleidlais drwy godi dwylo) [Rheol Sefydlog 10.31A];
- cyflwyno cyfeiriad penodol at gyhoeddi dogfennau a gyflwynwyd gan y cyhoedd i'w hystyried gan bwyllgor, i ategu amddiffyniad cyfreithiol cynnwys yr hyn a gyhoeddir [Rheol Sefydlog 10.36A];
- galluogi cadeiryddion pwyllgorau i ohirio neu atal cyfarfod o dan unrhyw amgylchiadau lle bydd y cadeirydd yn credu ei bod yn briodol, gan roi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar gadeirydd i drefnu'r llif busnes mewn ffordd mor effeithiol â phosibl [Rheol Sefydlog 10.41A]; a
- rhoi'r hyblygrwydd i bwyllgorau gyfarfod â phwyllgor neu gyd-bwyllgor unrhyw un o ddeddfwrfeydd y Deyrnas Unedig [Rheol Sefydlog 10.48].

**Penderfyniad**

17.Gwahoddir y Pwyllgor i:

- gadw'r Rheolau Sefydlog sy'n enwi'r Pwyllgor Busnes (fel y cynigir yn BC(3)29-10 Papur 1) a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a dileu pob Rheol Sefydlog arall sy'n enwi pwyllgorau, a rhoi yn eu lle, lle y bo hynny'n angenrheidiol, Reolau Sefydlog sy'n rhestri'r swyddogaethau penodol y mae'n rhaid eu cyflawni drwy strwythur y pwyllgorau (paragraffau 12 a 13 uchod); a
- rhoi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig fel y'u nodir yn Rhannau 1 a 2, a chytuno, mewn egwyddor, ar y newidiadau manwl a amlinellir yn atodiad A i Reolau Sefydlog 10, 12 i 21 a 28.